# Y LLINYN ARIAN

**Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon. Hydref 2021**

**Diolchgarwch 2021**

## Gweddi dros fyd bregus

Arglwydd,
mewn byd bregus,
pan fo iechyd, bywoliaeth
a hyd yn oed democratiaeth
dan fygythiad,
pwyswn arnat ti.
Atgyfnertha ni
i ymestyn dwylo
mewn brawdgarwch
a chynnig cysur a gobaith.
Amen.

## Gweddi dros adeiladu Teyrnas Dduw

Rho i ni, Arglwydd Dduw, weledigaeth o’r Deyrnas y mae dy gariad yn ei ddymuno: byd lle mae’r gwan yn cael eu gwarchod, ac nad aiff neb yn llwglyd, byd lle mae bywyd yn cael ei rannu, a’i fwynhau gan bawb, byd lle mae pob hil, cenedl a diwylliant yn byw mewn goddefgarwch a pharch, byd lle mae heddwch yn cael ei adeiladu gyda chyfiawnder, ac y mae cyfiawnder yn cael ei arwain gan gariad. Rho inni’r ysbrydoliaeth a’r dewrder i adeiladu dy Deyrnas yma ac yn awr. Amen.

Gweddiau Cymorth Cristnogol

## GAIR GAN Y GWEINIDOG



Faint ohonom sy'n cofio'r llyfr ' Ein babi cyntaf ' neu ‘My first baby' cyn cael y llyfr yn gymraeg? Cymwynas y llyfr oedd cofnodi gwybodaeth am y baban newydd-anedig . Rhoddwyd manylion lliw gwallt, llygaid, dyddiadau geni, cam cyntaf, dant cyntaf a nifer o gerryg milltir eraill. Ymhlith y pethau eraill gofnodwyd oedd cofnod o'r gair neu’r geiriau cyntaf siaradwyd gan y plentyn. Faint ohonom sy’n cofio’r geiriau neu’r brawddegau byrion cyntaf glywsom gan ein plant? Ac onid oedd yr eiliadau’n achos gwefr ar yr aelwyd. Pan feddyliwn amdanynt, onid dweud geiriau a glywir gan eu rhieni yw’r mwyafrif o eiriau plant bach. Pan oedd Rhian yng ngofal ‘Meithrhian’ cofiaf hi’n son am blentyn oedd bob tro welai lun o gath yn dweud ’ bly** cat!’ ‘Roedd yn annodd argyhoeddi’r plenty nad dyma oedd enw’r anifail achos cydnabu’r fam mae hi oedd yn gyfrifol am ynganu hynny yn aml - druan o’r gath.!

Dywed llyfr y Diarhebion ‘Dysga blentyn y ffordd orau i fyw, a fydd e ddim yn troi cefn arni pan fydd e’n hŷn. Cytunwn fod pob rhiant cyfrifol wrth fagu teulu’n dysgu plant i ddweud ’Diolch’. Pwysleisia’r adnod y gair ’Dysgu’ neu ’Hyfforddi’ fel y cawn yn y Beibl Cymraeg Newydd’. Mae’r dysgu yn bwysig, achos nid yw ‘diolch’ yn dod yn naturiol nac yn reddfol i wefus plentyn. Cofiwn ein rhieni lawer tro yn gorfod ein hatgoffa, wedi i ni brofi caredigrwydd, yn dweud: ’Be wyt ti ishe dweud?’ Wedi siomi yr oeddent nad oeddem wedi gallu cydnabod y caredigrwydd yn ddiolchgar heb iddynt orfod ein hatgoffa.

Mae’n fis Hydref unwaith eto; mis a gysylltir â’r gair DIOLCHGARWCH. Mae gennym Sul arbennig a Chasgliad Diolchgarwch a bocsus Pringles i’r plant/ieuenctid ond mae trefniadau’r Sul ychydig yn wahanol eto eleni oherwydd y Pandemig. Ond er hyn, ni chollir y cyfle i ddiolch .

Cynhaliwyd Oedfaon yn wreidddiol i ddiolch am: ’Ffrwyth y berllan , cnwd yr ardd , ŷd y meysydd, blodau hardd; Diolch am y ford mor llawn yn y bore a’r prynhawn ‘ ( Emyn 138 C Ff) Ond ers amser bellach, mae cylch ein diolch wedi ymestyn a chanlyniad hyn yw fod ein dyled yn fwy . Pan ofynnais i berson ifanc yn ddiweddar rhestru pump peth i ddiolch amdanynt nodwyd : “ Teulu, Iechyd, Bwyd a dŵr, Technoleg a gwyddonwyr; arbennigwyr sydd wedi gwneud gymaint o waith i’n helpu, yn enwedig tros yr 18 mis diwethaf a ffôn symudol i’n cadw mewn cysylltiad gyda teulu a ffrindiau .
Medrwn ychwanegu’n at y rhestr; peidiwn felly ac anghofio diolch a bod yn gyfrifol drwy wneud y pethau bychain i wella’r blaned ond hefyd gadewch i ni fod yn rhan o’r ymgyrchu sy’n galw ar y cwmniau mawr sy’n achosi gymaint o lygredd i newid eu blaenoriaethau a gwarchod y greadigaeth gyfan .

**HUNODD**

Dydd Mercher 28ain Gorffennaf bu farw **Mrs Joan Roberts, 27 Cae Berllan**
Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Ngrematoriwm, Bangor ar 12 Awst. Yn y gwasanaeth myfyriwyd ar y geiriau :'Aeth ato a rhwymo ei glwyfau , gan arllwys olew a gwin arnynt , gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety a gofalu amdano '. Hawdd deall pam dewis y geiriau achos i'r dosbarth o weini a gofalu dros eraill y perthynai Joan. Gwyddai am 'stormydd creulon bywyd' a bu blynyddoedd diwethaf ei bywyd yn anodd. Cydnabu ofal arbennig Llywela a nifer o gyfeillion eraill ac yn eu plith criw Taro Mewn .Ei hoff emyn a ganwyd yn y gwasanaeth oedd emyn 839 (CFf)

Arglwydd Iesu, llanw d'Eglwys
a'th lan ysbryd di dy hun
fel y gwanaethaetho'r nefoedd
drwy roi llaw i achub dyn .

Rhoddodd Llywela deyrnged arbennig o gyfoethog i'w mam gan orffen gyda'r geiriau .'We will miss her love, caring, phonecalls, her advice and wisdom . May she rest in peace with the God she believed in ' Cydymdeimlwn yn ddwys â Llywela a Gwynfor a'u teuloedd yn eu hiraeth o golli Mam a Nain.

**COLLI PERTHNASAU**

Meddyliwn am Mrs Ffion a Neil Johnstone a'r teulu,Pen y Berth, Pen y Garth ym marwolaeth mam Neil a chydymdeimlwn yn ddwys iawn a'r teulu.

**YN YR YSBYTY**

Mr Aron Davies, 40 Y Glyn—Ysbyty Walton,Lerpwl

**CYFNOD YN YR YSBYTY :**

Mr Wynne Williams, Yr Efail, Bethel
Mrs Lorna Billighurst , Anedd Wen, 12 Llys Siabod.
Mrs Jean Evans, Glyn Rhosyn, Dinas
Mrs Rebecca Jones,4 Ffordd Marchlyn.
Mrs Iola Grisdale , Y Glog Ffordd Bethel
Mr Evan Hughes , Bryn Ifan, Rhosbodrual a dau o'n plant Nel a Twm

Meddyliwn am ein haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**

Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Mr Elwyn Parry ,Roma Ffordd Bethel Cartref Bryn Seiont Newydd
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref .

**LLONGYFARCHIADAU**

Medi Wyn a Gareth Edwards , Melin Fro ar enedigaeth Mei John Edwards , brawd bach i Nel Wyn ac ŵyr i Lis a John Ian, Bryn Môr , Ffordd Bangor
Dr Gareth a Eleri Owens, Y Gilfach, Pen-y-bryn, ar ddod yn Nain a Taid i Neli Mai merch Anest a Joe. Heulwen a Deiniol Evans, 12 Bryn Eglwys ar ddod yn Nain a Taid i Owi Deiniol mab Mari a Gwyn Mr John Griffiths .30 Bron y Garth yn cael ei benblwydd yn 100 oed . Mae'n rhaid fod ei briod Nancy a'u plant Marian, Brenda a Wendy wedi gofalu'n dda.



***PRIODAS A BEDYDD***

P'nawn Sul 18 Orffennaf bedyddiwyd Leusa Gwawr Davies, merch Caren a Dafydd Antur Davies chwaer fach i Megan, ac yn yr un gwasanaeth gweinyddwyd priodas Caren a Antur. Dymunwn bob hapurwydd iddynt yn eu cartref yn Melin y Coed,
Dydd Mercher 1af Medi yng nghapel Salem , Caernarfon priodwyd Sara Sian Davies a David Stephen Parry, 38 Ffordd Eryri
Dydd Mercher 1af Medi yng nghapel Salem ,Caernarfon priodwyd Sara Sian Davies a David Stephen Parry, 38 Ffordd Eryri .
Dydd Sadwrn 18 Medi Yn eglwys Anglicanaidd Rochester priodwyd Daina Batts a Tomos Prys Jones . Dymuniadau da i'r tri cwpwl.

***SUL DIOLCHGARWCH : 17 HYDREF .2020***






Cynhelir Sul Diolchgarwch yr eglwys ar y trydydd Sul yn Hydref. Ar y Sul, bydd cyfle i'r plant a'r ieuenctid ddod â rhoddion o flodau, llysiau a ffrwythau i'w rhannu ag aelodau hyn yr eglwys. Byddant hefyd yn llenwi'r bocs 'Pringles' â cheiniogau gan roi'r arian i elusen arbennig. Bydd yr oedfa eleni yn y capel ac ar Zoom. Bydd yr arian a gesglir gan y plant a'r ieuenctid yn mynd tuag at Apel yr Urdd i gynorthwyo teuloedd o Affganistan sydd wedi ymagratrefu yng Nghymru.
**Bydd angen dychwelyd y bocsys Pringles erbyn bore Sul 7ed TACHWEDD . Derbynnir Rhoddion Diolchgarwch y plant a'r ieuenctid bore Sadawrn 16 HYDREF rhwng 11-12 o'r gloch yng nghyntedd Capel Salem. Os dymunwch gefnogi-'r Apel cysylltwch â Mererid .**

**CASGLIAD DIOLCHGARWCH.**

Yn ogystal ag offrwm wythnosol, **gwneir dau gasgliad arbennig yn** Salem sef Casgliad y Gwellianniau ym Mis Mai a Chasgliad Diolchgarwch yn mis Hydref. Roedd Casgliad Gwelliannau llynedd yng nghyfnod y Pandemig yn well nag arfer, ond gofidiwn eleni am iddo fod dros fil o bunnoedd yn is na llynnedd. Oherwydd y Pandemig, ni roddir amlen i bob teulu gyfrannu ond gofynnir yn garedig i bob aelod ymateb.



**Y ffordd hwylusaf i gyfrannu** at Gasgliad y DIOLCHGARWCH neu unrhyw gasgliad arall yw drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod:**Côd y Banc i'w dalu 40-16 -02**
**Rhif y cyfrif i'w dalu 70724556**

Os gwnewch hyn, **COFIWCH** roi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda. Mae hefyd yn bosib i anfon siec i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion, Caernarfon LL55 1LE

**CAPEL SALEM, CAERNARFON’ Adddoli yn Salem yng nghyfnod y Pandemig. ( Copi o’r llythyr ddanfonwyd mis Mai)**

Rydym yn edrych ymlaen i’ch croesawu yn ôl i adeilad Salem. Ar ôl misoedd o addoli ar wahan, mae’n deimlad digon rhyfedd ail gychwyn cyfarfod eto. Rydym yn edrych ymlaen, wrth gwrs, ond yn ymwybodol y bydd pethau yn wahanol iawn. Efallai fod rhai ohonoch yn teimlo’n bryderus am ddod yn ôl ac mae hynny yn hollol dealladawy. Nid ydym am i neb deimlo fod yn rhaid i chi ddod yn ôl i’r oedfa yn syth – rydym yn deall fod pawb yn ymdopi yn wahanol. Oherwydd hyn, byddwn yn parhau i baratoi oedfa ar Zoom yn fyw o’r capel

Os byddwch yn bwriadu dod i’r oedfa, dyma’r drefn y byddwn yn ei ddilyn:
• Cyfarfod am 10 o’r gloch fel arfer.
Gofynnwn yn garedig i bawb dros 11oed sy’n gallu i wisgo mwgwd tra yn yr adeilad.
Cewch ddod i’r capel drwy’r ddwy giat ochor ( bydd y giatiau canol ar gau )
Bydd hylif diheintio dwylo ar gael ar y ddau ddrws allanol.
Rhaid defnyddio hylif di-heintio cyn dod i fewn i’r capel.
Cewch ddefnyddio unrhyw un o’r ddau ddrws i gael mynediad i’r capel.
Mae’n anhebygol y medrwch eistedd yn yr un sedd ag arfer.

Unwaith byddwch yn y capel derbyniwch arweiniad ble i eistedd.
• Bydd rhaid cadw 2 fedr oddi wrth y person agosaf atoch bob amser onibai eich bod o’r un teulu neu swigen .
• Byddwn yn cyd-ganu dan ein mygydau
Ni wneir casgliad, ond gallwch roi eich cyfraniad yn y blwch yn y cefn ar y ffordd allan. Os oes rhaid defnyddio amlen melyn gofynnir yn garedig i osgoi arian rhydd.
Ar ddiwedd yr oedfa, byddwch yn derbyn cyfarwyddiadau i adael yn ddio-gel .Bydd y rhai sy’n eistedd yn y cefn yn gadael gyntaf. Gofynnwn i chi adael yr adeilad ar eich union. Os am gael sgwrs â rhywun, bydd rhaid gwneud hyn yn y stryd tu allan gan gofio cadw pellter .
Yn anffodus, ni fydd yn bosib ysgwyd llaw efo neb.
Ni all y capel ddarparu cludiant ar hyn o bryd .

Yr ydym yn edrych ymlaen i’ch croesawu yn gynnes a diogel yn ôl i Salem. Gan fod y tywydd yn Hydrefol gwresogir yr adeilad.
Gweindogion a Swyddogion Salem

***SYMPTOMAU*** Pwysig:
Os oes gennych symptomau Covid-19; gwres, peswch, byr eich anadl, ni fyddwch yn gallu dod i fewn i’r adeilad. Gofynnwn i bawb barchu hyn ac i aros adref os nad ydych yn teimlo yn dda.

Ymddiheuriadau nad oedd gwres Sul diwethaf—boileri ar streic ! Erbyn hyn maen’t yn gweithio . Gobeithiwn mae felly bydd bore Sul nesaf .



**OEDFA BORE SUL .**




Os nad ydych yn teimlo’n gyfforddus i ddod i’r capel i oedfa’r bore medrwch ymuno yn yr addoliad ar Zoom neu ar y ffôn.

**RHIF Y CYFARFOD 89967405728**

**CŌD YMUNO 1588**

**Mae Ysgol Sul Salem yn cyfarfod ar Zoom bob bore Sul am 11.30 o’r gloch.**

**RHIF Y CYFARFOD 5941441518**

**CŌD YMUNO salem123**
********************

**CYMORTH EFO ZOOM .**
Mae gennym ddwy wirfoddolwraig newydd i helpu gyda'r ochor dechno-legol a byddant yn derbyn hyfforddiant yn ystod yr wythnosau nesaf. Os oes un-rhyw un arall fyddai'n gallu bod ar gael i helpu efo'r zoom, cysylltwch efo Mererid.– po fwyaf gawn; gorau fydd.

**ARBED ARIAN**
Mae Capel Salem, fel pob mudiad ac elusen yn gorfod cadw llygaid barcud ar y gwariant . Un lle gellid arbed arian yw i ragor o’r aelodau dderbyn Y LLINYN ARIAN AR SAFWE CAPEL SALEM yn lle ei ffurf brintiedig . Bob tro bydd y Llinnyn Arian yn cael ei roi ar Safwe Salem, byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy ebost. Ystyriwch a fyddech chi’n gallu derbyn y LlA ar y wê? Os dymunwch newid i’w gael ar Safwe Salem yn lle ei brintio, rhowch wybod i Esyllt Penri Bebb, Cynfal, Lôn Ddewi. ebost : **esyllt.penri@yahoo.com** cyn y rhifyn nesaf yn Rhagfyr

**CRONFEYDD ARIANNOL Y CAPEL**
Faint sy’n ymwybodol bydd BANC HSBC yn hawlio cost gan bob elusen am weinyddu eu cyfrifon o 1 Tachwedd 2021 ymlaen? Golyga hyn gost ychwanegol i bob elusen. Disgwylir i Gapel Salem dalu cost gweinyddu ynghyd â ffi am dalu arian parod a sieciau i fewn i’r cyfri ac am godi arian parod. Pan delir arian i’r capel drwy arian man neu siec, co-fiwch felly na fydd achos Salem yn derbyn y swm a gyfrennir yn llawn . Bydd HSBC yn hawlio peth ohono. Er gofyn i HSBC newid eu trefn, hyd yma nid ydynt yn barod i wneud hynny. . Mae gan y capel tri cyfrif efo HSBC ac mae’r Pwyllgor Gwaith yn rhoi sylw i’r mater.

**Safwe Capel Salem : www.capelsalemcaernarfon.com.**

## CYFARFOD EGLWYS .

Yn mis Rhagfyr bob blwyddyn cynhelir cyfarfod Eglwys i roi sylw i gydnabyddiaeth y Gweinidogion . Oherwydd y Pandemig nid oedd yn bosibl yn Rhagfyr 2020 i gyflwyno argymhelliad y Pwyllgor Gwaith . Gan fod yr amgylchiadau wedi newid bwriedir **cynnal cyfarfod eglwys ar ddiwedd oedfa bore Sul 7ed o Tachwedd .** Rydym yn ymwybodol nad yw nifer ohonoch yn teimlo'n gyforddus i ddod i'r capel ar hyn o bryd, felly bydd cyfle i chwi ymuno ar Zoom gan ddefnyddio yr un rhifau cyslltu a oedfa'r Sul.'Rydym yn ymwybodol fod rhai ohonoch yn ymuno ar y ffôn a gwnawn ymdrech arbennig i glywed eich llais . I'r gweddill sydd am fynegi llais, cysylltwch â thrysoryddion y capel ac fe gewch fanylion y cyfarfod ymlaen llaw a chyfle i roi eich pleidlais.

## APEL HAITI CYMORTH CRISTNOGOL







Faint ohonom sy'n cofio Apel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 2013-2014? .Casglwyd £200,000. Unwaith eto mae'n argyfwng yn y wlad oherwydd daeagryn arall. Diolch i bawb wnaeth gefnogi y casglid arbennig yn ddiweddar; casglwyd £130 i'r Apel. Diolch am eich cefnogaeth.

### Gweddi dros Afghanistan

Dduw yn y Nefoedd,
Gweddïodd Dy Fab dros i'r Deyrnas ddod i'r ddaear.
Felly gweddïwn am heddwch a diogelwch pawb yn Afghanistan,
gan ofyn am i gyfiawnder a thrugaredd
ddod yn nodweddon bywyd y wlad honno.
Cofiwn hefyd am bawb o'n gwlad ein hunain a ddioddefodd
yn y gwrthdaro ac am deuluoedd y rhai a roddodd eu bywydau.
Drwy dy Ysbryd cynorthwya bawb i fyw yn gytûn fel
y gall Afghanistan unwaith eto fwynhau heddwch a diogelwch.
Yn a thrwy dy Fab ein Harglwydd Iesu Grist.
Amen.



## CYLCHGRONNAU.










**Gair y Dydd : Pris £10 y flwyddyn .**
**Cristion ( bob daufis ) Pris £1.50**
**Y Tyst ( wythnosol) Pris 50c**
**Os dymunwch archebu cysylltwch a Viera Owen. 98 Tre'r Gof**

## CYFARFODYDD ADFENT



**Mae'r Nadolig yn teimlo yn bell ffwrdd ar hyn o bryd—ond bydd wrth ein drws cyn pen dim! Nid ydym wedi cynnal oedfa nos yn Salem ers cychwyn y Pandemig, ond dros gyfnod yr Adfent byddwn yn cynnal myfyrdodau Adfent dros zoom ar y cyd efo Seilo a Noddfa. Byddant yn gyfle i ymdawelu drwy gyfrwng cerddoriaeth, delweddau a geiriau wrth i ni nesau at Wyl y Geni. Bydd y cyfarfodydd yn dechrau am 5:30. Manylion cysylltu i ddilyn.**

## AGOR Y LLYFR

**Er nad ydy criw Agor y Llyfr yn gallu mynd fewn i ysgolion ar hyn o bryd, maent yn parhau yn brysur drwy greu fideos i'w hafnon i'r ysgolion. Crewyd fideo ar gyfer tymor y Diolchgarwch a bydd cyfres o fideos yn cael eu creu ar gyfer y Nadolig. Os oes gennych ddiddordeb ymuno efo'r criw, cysylltwch efo un o'r gweinidogion.**